



GRŴP COLEGAU
NPTC
GROUP OF COLLEGES

Cwestiynau Cyffredin

C. Pwy all wneud cais am swyddi gwag Grŵp Colegau NPTC?

A. Os ydych yn credu bod gennych y profiad, y sgiliau, y cymwysterau cywir a'r ddawn ar gyfer y swydd, byddem yn falch iawn o glywed gennych. Os ydych yn ansicr, bydd y manyleb person a'r swydd-ddisgrifiad yn rhoi manylion am yr hyn yr ydym yn chwilio amdano.

C. A allaf wneud cais gyda fy CV?

A. Mae'r Coleg yn gofyn i bob ymgeisydd allanol lenwi ffurflen gais gan fod hyn yn rhoi gwybodaeth amdano chi a'r ymgeiswyr eraill mewn ffordd gyson i ni. Mae hyn yn ein helpu i sicrhau bod ein proses yn deg. Mae hefyd yn ein helpu i gasglu gwybodaeth gydraddoldeb ac amrywiaeth mewn perthynas â'n holl ymgeiswyr, er mwyn bodloni'n rhwymedigaethau statudol a'n helpu i gefnogi ymgeiswyr o bob sector o'r gymuned.

C. Ble galla i gael ffurflen gais?

A. Gallwch wneud cais ar-lein trwy glicio ar y botwm "Gwneud cais 'nawr" ar ochr dde manylion y swydd a hysbysebwyd, neu gallwch lawr lwytho'r ffurflen gais trwy glicio ar y botwm "Lawr lwytho Ffurflen Gais (Word)". Os ydych yn cael trafferth wrth gael gafael ar y ffurflen gais ar-lein, gallwch gysylltu â ni ar

jobs@nptcgroup.ac.uk neu ffoniwch **01639 648031** i ofyn am ffurflen gais.

C. Pa mor hir bydd y broses o lunio rhestr fer a sut byddaf yn gwybod os ydw i ar y rhestr fer?

A. Unwaith y bydd y swydd wag wedi cau, bydd y rhestr fer yn cael ei llunio fel arfer o fewn pythefnos. Byddwn yn ysgrifennu at bob ymgeisydd sydd wedi cael ei roi ar y rhestr fer i'w gwahodd i gam nesaf y broses. Yn anffodus, oherwydd y nifer fawr o geisiadau a dderbyniwn ar gyfer rhai swyddi, ni fyddwn yn cysylltu ag ymgeiswyr nad ydynt yn cyrraedd y rhestr fer.

C. Rwyf wedi cael fy ngwahodd am gyfweiliad, beth ddylwn i ddod â mi ar y diwrnod?

A. Bydd angen i chi ddod â dull adnabod fel eich pasbort neu dystysgrif geni. Bydd gofyn i chi hefyd gyflwyno tystysgrifau o unrhyw gymwysterau a grybwyllwyd gennych yn eich ffurflen gais. Byddwn hefyd yn gofyn i chi lenwi datganiad diogelu fel rhan o'n proses diogelu datgelu. Caiff hyn oll ei amlinellu yn eich llythyr gwahodd.

C. Ni allaf ddod o hyd i fy nhystysgrifau am gymwysterau, beth ddylwn ei wneud?

A. Os ydych wedi ein hysbysu yn eich ffurflen gais fod gennych gymhwyster, mae gofyn i ni weld y dystysgrif. Gallwch gysylltu â chorff dyfarnu megis CBAC i wneud cais am un newydd.

C. A fydd arnaf angen gwiriad gan y DBS?

A. Fel darparwr addysg, mae angen i bob aelod o'n staff gael gwiriad DBS boddhaol. Os byddwch yn llwyddiannus yn eich cais byddwn yn darparu'r manylion i chi am sut i wneud cais. Rydym hefyd yn gofyn i'n staff gofrestru gyda'r gwasanaeth diweddar. Mae hyn yn gwneud eich gwiriad DBS yn gludadwy.

C. Rwyf wedi bod yn llwyddiannus. Pryd galla i ddechrau?

A. Mae'r gofyn i ni dderbyn y pethau canlynol cyn i chi ddechrau'ch cyflogaeth; dau eirida boddhaol, rhaid i un geirida fod gan eich cyflogwr presennol neu fwyaf diweddar; ffurflen gais y gwasanaeth datgelu a gwahardd a'r dogfennau ategol llawn a'r taliad; cadarnhad eich bod wedi cofrestru gyda'r Cyngor Gweithlu Addysg (CGA) os yw'n berthnasol a thystysgrifau gwreiddiol ar gyfer unrhyw gymwysterau.

C. Mae gan Grŵp Colegau NPTC sawl campws, sut byddaf yn gwybod lle y lleolir y swydd?

A. Bydd yr hysbyseb yn dweud wrthyfch lle y lleolir y swydd.